Y cawr o Bantglas

(dyfalbarhad / amynedd / ffyddlondeb)

Sut y byddech chi'n ymddwyn petai gwêr cannwyll poeth yn disgyn yn araf ar eich pen a chwithau'n gorfod canu efo criw o blant o'ch cwmpas a chamerâu teledu yn ffilmio ar gyfer rhaglen deledu? Neu beth petaech ar lwyfan yn Covent Garden, yn yr opera *Die Walküre*, a chanistr nwy wedi'i glymu am eich canol a phibell yn dod ohono i lawr eich llawes i flaenau'ch bysedd a hwnnw i fod i danio fflam a'r fflam honno'n gwrthod diffodd a chwithau'n gorfod canu am bum munud mewn perfformiad byw. Beth fyddech chi'n ei wneud? Mae angen gŵr proffesiynol iawn i ymateb i'r fath sefyllfaoedd. Am bwy rydw i'n sôn?

Rwy'n siŵr fod un enw yn ddigon fel pennawd i'r stori hon – Bryn. Y cawr o Bantglas yng Ngwynedd. Mab fferm, nad oedd eisiau dilyn ei dad a chael perchnogaeth y fferm, nac eisiau dilyn ei frawd a mynd yn athro. Gwell gan Bryn oedd agor ei gŵys ei hun a dyna ddigwyddodd a dod yn un o sêr byd-eang ein cenhedlaeth ni. Yn ei ardal, ac yn bennaf ar yr aelwyd, y dechreuodd Bryn ganu, a hynny yn ôl pob tebyg yn dair oed! A chanu y bu byth wedyn.

Bara menyn y bachgen o Bantglas pan oedd yn blentyn oedd 'Cylchwyl Lenyddol a Cherddorol Glannau Dwyfach' lle byddai plant ac aelodau pedwar capel yn cystadlu, sef Capeli Pantglas, Bryncir, Brynengan a Bwlchderwin. Yn ysgol uwchradd Dyffryn Nantlle, Penygroes, daeth dan ddylanwad ei athrawes gerdd, Mrs Megan Roberts, ac yn yr ysgol honno roedd yn aelod o'r côr a hefyd yn canu ar ei ben ei hun. Byddai hefyd yn cael ei hyfforddi, ar y cychwyn gan Mr D. G. Jones (Selyf) Garndolbenmaen ac yna gan Mrs Nan Jones, Chwilog.

Ond cofiwch, nid canu'n unig oedd y Bryn ifanc. Fel y mwyafrif o fechgyn ei oed roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn pêl-droed. Bu'n chwarae fel blaenwr i dîm yr ysgol a hefyd i dîm ysgolion Gwynedd ac erbyn heddiw mae'n gefnogwr brwd rhyw dîm o Fanceinion – Man U! Yn ei farn ef mae'n gweld dyfodol disglair iawn i Wayne Rooney yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Er mai pêl-droed yw ei gariad cyntaf dydi gêm y bêl hirgron ddim ymhell i ffwrdd. Mae ganddo ddiddordeb mawr yn nhîm rygbi'r Scarlets a hefyd, wrth gwrs, yn y tîm cenedlaethol. Er ei fod â diléit mawr mewn chwaraeon roedd yn rhaid pydru ymlaen â'i

yrfa. Pan oedd yn 18 oed aeth i Goleg y Guildhall yn Llundain i ddilyn cwrs perfformio pedair blynedd gan astudio tair iaith ychwanegol, Ffrangeg, Eidaleg ac Almaeneg, ynghyd â dawns.

Ar ôl hynny dechreuodd ar gwrs dwy flynedd i astudio opera ond, ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf, cafodd gynnig cytundeb gan Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru i ganu'r prif rannau yn *Così fan tutte* a *Figaro*. Bu'n llwyddiannus iawn yn y Coleg gan iddo ennill y Fedal Aur i Gantorion. Yn ystod ei yrfa mae Bryn wedi dangos ei gefnogaeth i ieuenctid Cymru. Mae wedi cefnogi ysgoloriaeth flynyddol ar gyfer enillwyr rhwng 18 a 25 oed yn y cystadlaethau perfformio yn Eisteddfod yr Urdd a bu'n cyd-ganu gyda nifer o enillwyr yr ysgoloriaeth i lansio Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd, 2005.

Bryn ydi'r cerddor amryddawn i lawer un. Mae'r un mor hapus yn canu yn Covent Garden ag ydyw ar lwyfan yr Urdd, y Genedlaethol, ar y maes rygbi neu yng Ngŵyl y Faenol. Ble bynnag y mae'n perfformio mae'n siŵr o ddod i'r amlwg ei fod yn Gymro Cymraeg i'r carn.

Adnod: "Rhoddais ddawn i bob crefftwr i wneud y cyfan a orchmynnais iti." Exodus 31:6

Gweddi: O Dduw, diolch i ti am bawb sy'n barod i rannu eu doniau ag eraill a thrwy hynny i felysu eu bywydau. Amen.

Trafod:

- Beth fyddech chi'n ei ddweud sy'n gwneud Bryn Terfel yn seren mor llachar?
- Pa mor bwysig ydi cael diddordebau tu allan i'r byd yr ydych yn ymddiddori ynddo?